Telynorion Camac

Gaeaf 2007

Telynau Vining Cyf
8-10 Arcêd Heol Fawr, Caerdydd CF10 1BB
Ffôn: (029) 2022 1199
Ffacs: (029) 2022 6935
E-bost: telynauviningharps@boltblue.com

Gwefannau
Mae'n dwy wefan gysylltiedig yn awr yn weithredol ac yn boblogaidd iawn. Da chi, ymwelwch â ni yn: *www.camacharps.co.uk* a *www.rowlandsonline.co.uk*. Mae gan wefan Camac yr holl wybodaeth am ein hamrywiaeth o delynau ynghyd â'r rhestr ddiweddaraf o delynau ail-law a manylion am arddangosfeydd yn y dyfodol. Gallwch hefyd ddarllen yn ôl drwy ein harchif o lythyrau newyddion a'r newyddion diweddaraf am y delyn o bedwar ban y byd gyda chylchgrawn *Harpseasons* Camac.

Rowlands Online yw'r wefan lle gallwch archebu cerddoriaeth ddalen i'r delyn ynghyd â cherddoriaeth ar gyfer pob offeryn, tannau, CDiau a rhoddion cerddorol.

Mae'n Harwerthiant Telynau Nadolig yn ôl!
Ar ôl egwyl o rai blynyddoedd, rydym unwaith eto yn cynnal ein Harwerthiant Telynau Nadolig poblogaidd. Mae gennym 10 telyn lifer 34-tant coludd *Cambria* newydd ar gael mewn amrywiaeth o orffeniadau am bris arbennig, gostyngol. Mae'r rhain yn delynau newydd sbon ac maent yn cynnwys allwedd gyweirio a gwarant 2-flynedd lawn y gwneuthurwyr. Mae'r *Cambria'n* gwerthu am £1,495.00 fel arfer, ond ym mis Rhagfyr, mae'r 10 telyn yma ar gael am bris gostyngedig o £1,245.00. Brysiwch: dim ond cyhyd ag y pery'r cyflenwad y bydd y cynnig hwn ar gael, felly peidiwch â methu'r cyfle i gael telyn am Nadolig am bris gwych!

Telynau ail-law
Mae gennym y telynau ail-law a ganlyn ar hyn o bryd: Telyn glin *Troubadour* 22-tant neilon mewn gorffeniad masarn naturiol. Cyflwr gwych, cyn-fodel arddangos, 12 mis oed. Gwarant 2-flynedd lawn. £450.00 yn cynnwys TAW. Telyn werin *BabyBlue Electro* 36-tant mewn gorffeniad glas. Cyflwr da. Rhyw 2 flwydd oed. Mae'r pris yn cynnwys gorchudd teithio trwm a stondin i ddal y delyn. £2,500.00. Telyn bedal *Clio* 44-tant â seinfwrdd estynedig, gorffeniad mahogani gyda seinfwrdd plaen, £7,995 yn cynnwys TAW. Cyflwr gwych, cyn-fodel arddangos, 12 mis oed. Gwarant 5-mlynedd lawn a set gyflawn o orchuddion teithio trwm gwerth £400.00. Telyn bedal *Athena* 47-tant â seinfwrdd estynedig mewn gorffeniad mahogani gyda seinfwrdd wedi'i addurno, £8,495.00 yn cynnwys TAW. Pris yn cynnwys set gyflawn o orchuddion teithio trwm.

7fed Symposiwm Telynau Ewrop
Roeddem yn ddigon ffodus i gael Symposiwm Telynau Ewrop ar garreg ein drws eleni am wythnos yng Ngorffennaf, pan ddaeth telynorion o bob rhan o Ewrop i Gaerdydd i gynnal rhaglen orlawn o gyngherddau, gweithdai a dosbarthiadau meistr. Ein cartref am yr wythnos oedd Canolfan ysblennydd y Mileniwm, yng nghalon Bae Caerdydd, lle'r ymunom ni â Camac i gynnal arddangosfa fawr o delynau Camac a lenwai ddwy stafell.

Cychwynnodd y symposiwm gyda chynulliad o 100 o delynorion yng nghyntedd Canolfan y Mileniwm mewn ymgais i ennill lle yn y *Guinness Book of World Records* am y nifer mwyaf o delynorion pedal i chwarae darnau wedi'i paratoi. Ar ôl sesiwn gyweirio anferth, chwaraeodd y 100 telynor ddwy set i gymeradwyaeth fyddarol o bob lefel yn yr adeilad.

Y 100 telyn yn yr EHS.

Telynores gwadd, Amanda Whiting, yn siarad â Jakez François, Llywydd Telynau Camac, yn dderbyniad Telynau Vining yn yr EHS.

Ymhlith y llu o gyngherddau ffantastig roedd cyngerdd gala agoriadol yn cynnwys amrywiaeth o wahanol delynau, o delynau gwerin i delynau pedal a'r delyn deires Gymreig draddodiadol. Cafwyd perfformiad arbennig gan y tri thelynor brenhinol: Catrin Finch, Jemima Phillips a Claire Jones. Cyngerdd cofiadwy arall oedd y cyngerdd Consierto a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Yr unawdwyr oedd Isabelle Perrin, a berfformiodd *Gonsierto* William Mathias, a Catrin Finch a berfformiodd y *Concierto de Aranjuez* gan Joaquin Rodrigo.

Daeth y Symposiwm i ben gyda chyngerdd jazz ysgubol yn Neuadd y Ddinas gyda *Naccara*, grŵp Ffrengig yn cynnwys chwe thelynor pedal, basgrythor ac offerynnau taro. Roedd yn bleser i'r llygad wrth i'r chwe thelynor symud o gwmpas

Telynorion Camac

y telynau gan eu defnyddio fel offerynnau taro yn ogystal â'u canu yn yr arddull draddodiadol. Fe'u dilynwyd gan Catrin Finch mewn arddull jazz. Ar un pwynt, daeth Jakez François, Llywydd Telynau Camac, i chwarae deuawd gyda hi mewn ymddangosiad cerddorol prin (a werthfawrogwyd yn fawr). Cwblhawyd yr arlwy gan Helen Davies a'i gŵr Palle Mikkelborg, y trympedwr jazz, a Gert Sorensen ar allweddellau ac offerynnau taro. Diweddglo cofiadwy i'r hyn a fuasai'n wythnos anhygoel.

Telynau *Bardic*
Lansiwyd telynau newydd *Bardic* yn Symposiwm Telynau Ewrop eleni ac, fel y gwelir ar ein cerdyn Nadolig, maent ar gael mewn amrywiaeth helaeth o liwiau yn ogystal â'r gorffeniadau mwy traddodiadol. Mae'r telynau ar gael gyda 22 neu 27 o dannau, ac mae gan bob un set o goesau y gellir eu defnyddio os dymunir. Mae ganddynt hefyd orchudd teithio trwm y gellir ei gario fel rycsac. Mae'r prisiau'n gystadleuol dros ben, gyda'r un 22-tant yn gwerthu am £645.00 a'r un 27-tant yn £845.00. Fu'r ymadrodd 'Have harp... will travel' erioed yn fwy addas ar gyfer telyn gludadwy!

Arddangosfeydd telynau yn 2008
Da chi, gwnewch nodyn yn eich dyddiadur o'r digwyddiadau pwysig canlynol lle byddwn yn arddangos yn 2008:

Gŵyl Telynau Rhyngwladol Caeredin: 28 Mawrth-2 Ebrill
Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd: 2-8 Awst

Fe fydd digwyddiadau eraill hefyd, nad yw'r manylion terfynol amdanynt ar gael wrth i ni fynd i'r wasg. Os hoffai unrhyw gymdeithasau telyn neu athrawon telyn i ni ymweld â'u hardal, da chi, cysylltwch â ni i drafod hyn.

Rhywbeth i'r hosan
Edrychwch ar yr anrhegion Nadolig a rhoddion hosan fforddiadwy yma:
Set o bedwar torrwr cacen siâp cerddorol £8.95.
Cylch allweddi telyn £5.95.
Mwg latte cerddorol £6.99.
Addurn coeden Nadolig nodau cerddorol £4.99. Addurn y gellwch ei socian mewn dŵr ar ôl Nadoliog a'i blannu y tu allan i dyfu cymysgedd o flodau.
Cracyrs cerddorol: holl hwyl yr ŵyl gyda'r cracyrs cerddorol hyn. Mae pob cracyr yn cynnwys chwiban traw gwahanol. Enwebwch arweinydd i ddilyn y sgôr a defnyddio'r baton, a gall pawb ymuno gyda'i gilydd i chwarae carolau Nadolig. Oriau o hwyl am £12.95.
Cyweiriwr cromatig electronig Seiko SAT500 am £29.99. Ysgafnhewch y baich o gyweirio!
Mae'r trosydd cyweirio CM1 dewisol ar gael gennym hefyd, am £8.00.

Cerddoriaeth newydd
Os carech gael copi o'n catalog cyfredol, da chi, cysylltwch â ni dros y ffôn, drwy ffacs neu ebost a bydd yn bleser gennym anfon copi atoch drwy'r post. Mae pob eitem ar gael drwy'r post, gyda'r troad fel arfer. Mae'r holl gatalog telynau ar gael yn awr i'w brynu ar-lein yn *www.rowlandsonline.co.uk*.
Dyma rai o'r llyfrau newydd sydd gennym mewn stoc eleni:
O ysgrifbin Meinir Heulyn, dyma gasgliad newydd o *14 o Garolau Nadolig* wedi eu trefnu ar gyfer un neu ddwy delyn.
Lever Harp World – Casgliad o ddarnau telyn lifer cyfoes canolradd gan wahanol gyfansoddwyr, golygwyd gan Danielle Perrett a David Gough.
Mae gennym gasgliad mawr o weithiau gan Andres Izmaylov, cyd-brif delynor Cerddorfa Ffilharmonig St Petersburg, yn cynnwys *For Artemy* a *St Petersburg – Vienna Concerto Waltz*.
Dau ddarn newydd gan Janet Bennett: *Images of Northumbria* (15 o gyfansoddiadau gwreiddiol a threfniadau o Northumbria) a *Traditional Treasures* (18 o gyfansoddiadau gwreiddiol a threfniadau o Loegr, Iwerddon, yr Alban a Chymru).
Dream Studies, *Magical Animals* a *The Dinopaur Duet Book* Sue Rothstein.

CDiau Newydd
Something borrowed… Something new – y CD newydd disglair gan Amanda Whiting, un o brif delynorion ifanc y DU.
Naccara – cyfuniad cyffrous o 6 thelyn, basgrwth ac offerynnau taro.
Cwlwm Cân – detholiad o gerddoriaeth gan ensemble 5-telyn.

Archebu drwy'r post a gwefannau
Carem atgoffa'n cwsmeriaid ein bod yn cynnig gwasanaeth archebu drwy'r post gyda'r troad ar gyfer ein holl gerddoriaeth, tannau, ac offer telyn. Gallwch archebu'r rhain drwy ein ffonio ar (029) 2022 1199 neu drwy anfon ebost atom, *telynauviningharps@boltblue.com*.
Mae'n siop yng nghanol Caerdydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 10am - 5.30pm. Mae'n dwy wefan yn weithredol yn awr felly gallwch edrych ar y telynau a gweld yr holl newyddion diweddaraf yn *www.camacharps.co.uk* a gallwch brynu yr holl gerddoriaeth ddalen, CDiau, tannau a rhoddion cerddorol yn *www.rowlandsonline.co.uk*.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cwsmeriaeth yn ystod 2007. Rydym wedi mwynhau bod at eich gwasanaeth, ac edrychwn ymlaen at barhau â'n traddodiad o gynnig gwasanaeth cyfeillgar, cymwynasgar a gwybodus.

'Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda' i'n holl ddarllenwyr.